



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon – cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ar nos Lun, Medi'r 24ain am 6.30. Os oes gennych ddi-ddordeb i fod yn rhan o'r Pwyllgor yna cysylltwch â mi am wybodaeth bellach. Mae rhaglen flynyddol y Pwyllgor yn cynnwys gweithgareddau codi arian a gweithgareddau cymdeithasol er mwyn hybu cysylltiadau positif rhwng yr ysgol, y disgyblion a'r rhieni.

Mi fyddaf yn rhoi cyflwyniad am flaenoriaethau a gweithgareddau'r ysgol yn ystod y cyfarfod. Mi fydd Cadeirydd y Llywodraethwyr hefyd yn bresennol. Gallwch weld adroddiad blynyddol y Cadeirydd ar wefan yr ysgol www.ysgolgymraeg.cymru o dan adran y llywodraethwyr, mae copi caled ar gael o'r ysgol. Croeso cynnes i holl rieni a gwarcheidwaid.

Y Welsh Whisperer ym Mlwyddyn 5 – mi fydd y Welsh Whisperer yn cynnal gweithdy cerddoriaeth creadigol i ddisgyblion Blwyddyn 5 ar ddydd Mercher, Medi'r 26ain. Y gost fydd £2.00 y plentyn, mi fydd cyllid y Siarter Iaith yn talu cyfran o'r gost.

Diwrnod Rhyngwladol – mi fydd yr ysgol yn cynnal nifer o weithgareddau i hybu agweddau rhyngwladol ar ddydd Gwener, Hydref 19eg. Mi fydd pob dosbarth yn astudio gwlad arbennig: Meithrin – Cymru, Derbyn - yr Alban, Blwyddyn 1 – Sbaen, Blwyddyn 2 – Yr Eidal, Blwyddyn 3 – Yr Almaen, Blwyddyn 4 – Ffrainc, Blwyddyn 5 – Yr Ariannin, Blwyddyn 6 – Yr India. Os oes gennych unrhyw wybodaeth / profiadau a fydd yn cyfoethogi'r gweithgareddau yna cysylltwch â'r ysgol os gwelwch yn dda. Mae gwahoddiad i'r disgyblion wisgo gwisg arbennig sy'n cyfleu'r wlad – gellir gwisgo baner fel clogyn os y dymunir!

Prydlondeb yn y boreau – i gadw holl blant yr ysgol yn ddiogel mae'n ddyletswydd arnom i gloi drws y prif fynedfa am 9 o'r gloch. A wnewch chi'n siwr eich bod wedi gadael yr adeilad erbyn 9 o'r gloch yn brydlon os gwelwch yn dda.

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

**R C Williams,
Pennaeth
Medi'r 20fed, 2018**

@YsgolGymraeg
www.ysgolgybraeg.cymru



Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plasrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Parents / Teachers Annual General Meeting – the AGM will be held on Monday, September 24th at 6.30. If you are interested in being a member of the Committee then please contact me for further information. The PTA's annual timetable includes fund raising activities and social events to promote positive links between the school, pupils and parents. I will be giving a presentation during the meeting regarding the school's priorities and activities. The Chair of Governors will also be present. The Chairman's annual report is available in the governors section of the school website www.ysgolgybraeg.cymru. All parents and guardians are welcome.

The Welsh Whisperer in Year 5 – the Welsh Whisperer will be holding a creative music workshop for Year 5 on Wednesday, September 26th. The cost will be £2.00 per pupil. Money from the Welsh language Charter will be used to pay part of the cost.

International Day – the school will be holding a variety of activities to promote the international dimension on Friday, October 19th. Each class will be studying a different country:
Nursery – Wales, Reception – Scotland, Year 1 – Spain, Year 2 – Italy, Year 3 – Germany, Year 4 – France, Year 5 – Argentina, Year 6 – India. If you have any information / experiences that will enrich the activities then please contact the school. Pupils are invited to wear outfits that represent the different countries – children may wear a flag as a cloak if they wish.

Punctuality in the morning – in order to keep every child safe it is our duty to lock the main door at 9 o'clock. Please make every effort to leave the school premises by 9 o'clock promptly.

If you have any worries regarding your child's education then please contact me immediately.

R C Williams,
Headteacher
September 20th, 2018